

‘Mae cariad Crist yn annog y byd i gymod ac undod’ argraffiadau’r Parch Anna Jane Evans o Gymanfa Cyngor Eglwysi’r Byd



Fel un sydd wedi cael y fraint o deithio cryn dipyn a byw mewn sawl lle roeddwn yn teimlo mod i wedi cael profiadau addoli eithaf eang a gwahanol, a hynny mewn sawl iaith a thraddodiad. Ond roedd cael bod yn Karlsruhe fel cynrychiolydd Eglwys Bresbyteraidd Cymru yng Nghymanfa Cyngor Eglwysi’r Byd yn rhywbeth arall! Gofynnodd Huw (un o’r golygyddion) imi lunio adroddiad ar gyfer *Cenn@d*, ond wrth eistedd i wneud hynny dwi’n sylweddoli bod ‘na lawer mwy i’w ddweud nag y gellir ei gynnwys mewn un dudalen. Felly, dyma benderfynu dechrau efo’r hyn oedd yn sylfaenol i’r holl brofiad, sef y cydaddoli a’r gweddïau dyddiol. Bydd erthygl neu ddwy arall i drafod y materion a drafodwyd.

Rhyw unwaith bob saith mlynedd y mae Cymanfa Cyngor Eglwysi’r Byd yn cyfarfod (ers eu cyfarfod cyntaf yn 1948), a hwn oedd yr unfed cyfarfod ar ddeg. Roedd 352 o enwadau eglwysig o bob cornel o’r byd wedi dod yno, tua phedair mil o bobl. Pedair iaith swyddogol y cyfarfodydd oedd Almaeneg, Sbaeneg, Ffrangeg a Saesneg. Ond roedd yr addoli’n cynnwys caneuon, gweddïau a darlleniadau mewn ieithoedd nad oeddwn erioed wedi eu clywed o’r blaen e.e. Sami, Ffinneg, Aramaeg, ac ieithoedd brodorol rhai o wledydd Affrica. Un o’r darlleniadau wnaiff aros efo fi oedd y sgwrs rhwng Iesu a Pedr ar ôl yr atgyfodiad yn cael ei darllen o Feibl Jamaica – a’r acen hyfryd wrth ddweud: ‘Feed my sheep, then’ yn atgyfnerthu’r ffaith rywsut nad jest geiriau ydi cariad ond gweithredoedd.

Roedd pob dydd yn cychwyn yn y Prayer Tent – pabell fawr agored wedi ei gosod yng nghysgod rhai o’r adeiladau cynadleddau mawr ynghanol Karlsruhe – efo grisiau’r neuadd gyngerdd yn y tu blaen yn safle perffaith ar gyfer y cerddorion a’r côr. Roedd yr addoliad cychwynnol a’r gweddïau boreol i gyd wedi cael eu trefnu gan y pwyllgor addoli canolog ac yn cynnwys caneuon brodorol hwyliog yn ogystal â nifer o ‘Kyries’ ac ‘Alleluias’ o wledydd amrywiol.

Dwi wastad wedi licio campio ac yn meddwl fy mod yn cysgu’n well mewn pabell nag mewn unrhyw adeilad. Ac roedd addoli mewn pabell yn creu’r un ymdeimlad: teimlo’r awel (yn hytrach na drafft!), clywed yr adar, edrych ar ddail y coed ac ogleuo’r glaw i gyd rywsut yn ategu’r profiad synhwyrus o ymateb i Dduw ac ymuno efo’r holl greadigaeth i’w foli. Roedd cydweddio a chanu efo cynifer o bobl hefyd yn rhan o’r rhyfeddod, a’r rheini i gyd mor wahanol i mi mewn cynifer o ffyrdd – lliw croen, siâp, iaith, diwylliant, profiad, oed, amgylchiadau. Ond pob un ohonom yn rhannu’r un dyhead am deyrnas cariad a chyfiawnder Duw, yn rhannu’r un ffydd er bod ein diffiniadau ffydd a’n diwyllianau ffydd mor amrywiol. Thema’r gynhadledd oedd ‘Mae cariad Crist yn cymell (neu’n symud) y byd at gymod ac undod’. Yn sicr, dyna wirionedd y profiad.

Mewn un o’n cyfarfodydd grŵp, dywedodd rhywun fod y gair undod yn air anodd, achos bod syniad pawb o beth yn union ydi

undod yn wahanol a disgwyliadau pawb wrth drafod ein dyhead am undod felly’n amrywio. Wrth i ni addoli roedd yr undod yno mewn ffordd ddwfn a real iawn iawn, a gwnaeth i mi feddwl am y ffordd roedd Iesu’n sôn am deyrnas Dduw: ‘Nid rhywbeth i wlyio amdano yw dyfodiad teyrnas Dduw. Ni bydd pobl yn dweud “Dyma hi”, neu “dacw hi”; edrychwch, y mae teyrnas Dduw yn eich plith chi.’ (Luc 17:20–21)

Mae dod yn ôl i addoli mewn adeilad, gan wybod bod ‘na bum cynulleidfa arall o fewn pellter poeri (bron) hefyd yn addoli mewn adeiladau gwahanol yr un pryd yn peri tristwch a rhwystredigaeth mawr i mi ar ôl y profiad yna o undod. Yn eironig (a thrist), gwn y bydd nifer o gapeli ac eglwysi wedi cydaddoli gydol mis Awst, a bod nifer o’n haelodau wedi sgwrsio ar derfyn oedfa gan ddweud, ‘Biti nad ydym yn gwneud hyn yn amlach’ – fel maen nhw wedi’i ddweud bob blwyddyn ers cantoedd, yn union fel petaem yn dewis peidio cerdded i mewn i’r deyrnas a’r undod sy’n disgwyl amdanom i’n croesawu!




Cynrychiolwyr o Gymru: y Parch. Ainsley Griffiths, y Parch. Anna Jane Evans a’r Parch. Dyfrig Rees

Parchedig yr Adar, Harri Williams

Fore Mercher, yn Eisteddfod anhygoel Tregaron, lansiwyd y llyfryn hwn o waith un o'n cyn-wybodusion mewn sawl maes. Mae llawer yn cofio'r Athro Harri Williams yn bennaeth Coleg y Presbyteriaid yn Aberystwyth. Mae eraill yn ei gofio fel gweinidog ymroddgar a phoblogaidd ym mhulpuadau ein gwlad ac am ei gynnyrch llenyddol yn saithdegau'r ganrif ddiwethaf. Pinacl hynny iddo (ac i minnau, yn sicr) oedd ei esboniad ar y cyd efo O. E. Roberts (enillydd y Fedal Ryddiaith am ei gyfrol *Cyfrinachau Natur*), sef *Y Creu a'r Cadw* (1973). Enillodd Fedal Ryddiaith yr Eisteddfod ei hun yn 1978 am ei gyfrol *Y Ddaeargryn Fawr...* hunangofiant dychmygol y diwinydd Soren Kierkgaard! A dim ond agor cil y drws ar ei greugarwch ydi hyn.

Yn ddiweddar, daeth yn amser clirio'r storws o'i 'betha' a'i bapurau. A darganfu'r teulu swp o erthyglau wedi eu cwblhau, wedi eu hysgrifennu'n ofalus yn ei ddull unigryw ei hun – am adar ac adarydda!

Gwelodd y teulu'n dda i roi'r bwndel i Duncan Brown, Is-lywydd Cymdeithas



Edward Llwyd, a gofyn iddo fwrw golwg a datgan barn am y cynnwys. Gwelodd Duncan eu gwerth hanesyddol, adaryddol a llenyddol. Penderfynodd Cymdeithas Edward Llwyd eu cyhoeddi, a bellach maent yn ychwanegiad hardd i hanes a llafur y Gymdeithas ar adaryddiaeth yng Nghymru.

Sonia'r awdur sut y dechreuodd ymddiddori mewn adarydda, gan fanylu ar ei gyfeirlyfrau a'i offer – gwydrau a sbienddrych ei dad, oedd yn gapten llong, a ddefnyddiai. Yna ceir hanes ei daith

personol wrth iddo fentro i fyd yr adar a'r lleoedd y bu'n gweinidogaethu ynddynt, gydag enghreifftiau difyr o ddigwyddiadau y bu'n dyst iddynt.

Cyn cloi, rhaid i mi gyfeirio at grefft ac ansawdd y cloriau. Mae'r cyfan yn glir a chymen, a llun o'r awdur yn craffu dros y rhos yn atyniadol hiraethus. Mae chwe llun lliw yma hefyd, yn gwahodd picio i mewn a gwerthfawrogi ffotograffiaeth adar o'r radd flaenaf.

Mae'r gyfrol yn haeddu llwyddiant gan fod Cymdeithas Edward Llwyd wedi llwyddo i achub i ni stori addysgol gŵr arbennig iawn iawn.

Norman Closs-Parry

Mae copiau o'r gyfrol ar gael am £5 yr un gan Gymdeithas Edward Llwyd.

Dalier Sylw!

RHYBUDD: Mae Gweinidogaeth Iacháu y Gogledd yn ymgynnull am y tro cyntaf ers amser hir yng Nghapel Trefnant, Trefnant, Dyffryn Clwyd, dydd Sadwrn, 15 Hydref.

Tybed a glywsoch eiriau caredig ein Hysgrifennydd Cyffredinol ar ôl ei hymweliad ag Ysgol Haf y Weinidogaeth Iacháu yng Nghefn Lea eleni? Cafwyd bendithion lu ac fe gawn fendith mawr o'r encil yma yn Nhrefnant hefyd. Mae ein hencil yn adlewyrchiad byr o'r ysgol haf. Cawn flas a phrofiad o bopeth a gewch yno, ond heb yr amser i gymdeithasu wrth gwrs. Dewch yn llu i ymlonyddu a phrofi'n uniongyrchol o'r hedd 'na ŵyr y byd amdano'.

Byddwn yn cyfarfod am baned a sgwrs am 10.30 o'r gloch.

Edrychwn ymlaen at gael eich croesawu.

*Arthur Rowlands
Llywydd y Gogledd*

Gair o gydymdeimlad

Yn dawel yn ei gwsg yn ei gartref yn Woking, wedi cystudd hir, bu farw Mr John Mervyn Jones, ychydig ddyddiau cyn ei ben-blwydd yn 81 oed. Roedd yn Ysgrifennydd ar Eglwys Castle Street, Llundain, o 1988 hyd 2006. Mae ein meddyliau a'n gweddiau gyda Marion ei weddw, a roddodd groeso arbennig gyda John i holl bregethwyr Castle Street a oedd yn aros yno dros y Sul.

*John Samuel
Eglwys Gymraeg Canol Llundain*

Cymdeithas yn ailafael

Dyma lun o achlysur cymdeithasol cyntaf Capel y Tabernacl, Rhuthun, ers Covid, a gynhaliwyd ar 10 Medi 2022. Daeth nifer ynghyd i gefnogi bore coffi cyntaf cymdeithasau'r capel, a braf oedd cael cyfle i sgwrsio a rhoi'r byd yn ei le.

Teresa Wynne



**Gymdeithasfa'r Gogledd –
Y Weinidogaeth Iacháu
'Dewch, ymlonyddwch'
Encil y Weinidogaeth Iacháu
Dydd Sadwrn, 15 Hydref 2022**

Capel Trefnant, Trefnant, Dyffryn Clwyd

10.30–3 o'r gloch

Dewch â phegyn bywd ar gyfer cinio;
paratoir paned

Croeso cynnes i bawb

Am ymholiadau pellach, cysyllter â: Mrs
Hafwen Roberts – 01745813445

‘Mae cariad Crist yn annog y byd i gymod ac undod’

Dyddiadur Gwen Down o Aberystwyth a oedd yn stiward yng Nghymanfa Cyngor Eglwysi'r Byd yn Karlsruhe yn yr Almaen



25 Awst

Doeddwn i ddim yn siŵr iawn beth i'w ddisgwyl wrth i mi gyrraedd Karlsruhe ddoe ar gyfer Cymanfa Cyngor Eglwysi'r Byd. Roeddwn i wedi cael sawl cyfarfod Zoom gyda'r cant a hanner o stiwardiaid eraill o bob rhan o'r byd, ac wedi cyrraedd y gwesty roedd hi'n syndod pa mor sydyn y daethom ni i gyd i adnabod ein gilydd a gweithio gyda'n gilydd. Roedd nifer o'r stiwardiaid yn hŷn nag oeddwn i yn ei ddisgwyl; a dweud y gwir, rydw i'n meddwl mod i ymysg yr ieuengaf o bawb. Ond doedd dim ots am hynny! Yn fuan iawn mi ges i sgyrsiau difyr efo darpar weinidog hoyw o Ganada, aelod o eglwys Uniongred Rwsia, criw difyr iawn o Dde Affrica, dim ond i enwi rhai. Roedd hi'n dda o beth ein bod ni yn gallu cydweithio oherwydd yn fuan iawn daeth yn amlwg fod stiwardio yn golygu oriau hir a lot fawr o waith, yn enwedig gan fod rhai stiwardiaid wedi methu cael *visa* er mwyn dod i'r Almaen. Roedd y dyddiau cynta yn argoeli'n dda.

29 Awst

Mae Karlsruhe yn ddinas braf ac mae pob diwrnod yn cychwyn, yn gynnar iawn, gyda thaith ar y tram o'r gwesty i'r ganolfan gynadledda. Rydw i wedi cyrraedd yma wythnos cyn i'r Gymanfa ddechrau ar gyfer cynhadledd ieuencid, ac mae angen paratoi ar gyfer y Gymanfa ei hun. Daeth yn amlwg iawn yn y gynhadledd ieuencid fod pawb yn ystyried eu ffydd fel rhywbeth hynod bwysig iddynt, ond nid rhyw ffydd sych, ddfilas oedd hon. Roedd hi'n

gynhadledd llawn hwyl a chwerthin a chanu, ond hefyd yn trafod materion fel newid hinsawdd, cydraddoldeb hil a rhyw a rhyfel a heddwch, ac er bod 'na rywfaint o anghytuno, roedd pawb yn cyd-dynnu ac yn parchu ei gilydd. Roedd e'n brofiad da.

1 Medi

Mae'r gynhadledd wedi dechrau. Mae miloedd o bobl yma, a rydw i wedi bod yn chwilio am y Cymry. Rydw i wedi gweld rhai yn barod a chael ambell sgwrs, ac mae pawb yn edrych ymlaen. Rydw i wedi cael fy ngosod i stiwardio yn y neuadd fawr; ar adegau byddaf yn gofalu am un o'r microffonau ar gyfer y cynrychiolwyr. Maen nhw eisoes wedi dweud wrthym y gall y trafod fynd yn boeth a bod y stiward ar y meic yn gorfod bod yn bendant iawn pan fydd pobl yn mynnu siarad yn hir. Ond y fantais fawryw y byddaf yn y neuadd pan fydd y trafod mawr yn digwydd. Mae cynrychiolwyr o Rwsia ac o Wcráin yma – maen nhw wedi eu gosod cyn belled â phosib oddi wrth ei gilydd. Dwi'n siŵr y bydd y drafodaeth ar y rhyfel yn un fywiog iawn.

Dyma fy ail ddydd lau mewn du. Rydym yn gwisgo du bob dydd lau oherwydd ym mhob gwlad mae trais ar sail rhywedd yn realiti trasig iawn. Mae'r trais hwn yn aml yn guddiedig, ac mae'r dioddefwyr yn dawel ac yn ofni stigma ac yn ofni trais pellach. Mae dros 30% o fenywod yn dioddef trais corfforol neu rywiol gan bartner neu rywun agos yn ystod eu hoes. Mae Cyngor Eglwysi'r Byd wedi penodi dydd lau fel diwrnod i wisgo du er

mwyn dangos ein bod ni yn sefyll gyda'r menywod neu'r bobl yma sydd wedi cael eu heffeithio. Mae 'na waith celf yn hongian yng nghefn un o'r prif neuaddau, tapestri sydd yn adlewyrchu profiadau menywod o bob rhan o'r byd. Mae 'na gant wyth deg un stori wedi eu pwytho yn sribedi lliwgar sydd yn symud yn yr awel pan fydd pobl yn mynd heibio. Artist o Frasil, Janine Marja Schneider, sydd wedi pwytho'r gwaith, ac roedd hi'n dweud ei bod gyda phob pwyth yn uniaethu â dioddefaint y menywod.

6 Medi

Mae 'na dipyn bach o anniddigrwydd yn y gynhadledd – yn enwedig yn ein plith ni, bobl ifanc. Mae'r Cyngor yn dweud eu bod eisieu clywed lleisiau pobl ifanc ond wrth ethol eu pwyllgor gwaith maen nhw wedi methu hyd yn oed cyrraedd eu nod eu hunain. Dim digon o bobl ifanc, dim digon o ferched, dim digon o bobl yn byw efo anabledau – roedd cryn anniddigrwydd ac fe ddaeth tua dwsin o bobl ifanc at y microffon eisieu siarad. Ond cyhoeddwyd o'r llwyfan nad oedd amser i'r un ohonynt siarad. Yn y diwedd, fe gafodd un ferch o Frasil gyfle i siarad am funud yn unig. Mae pawb yn pwysleisio fod rhaid gweithredu yn hytrach na siarad yn unig, ond heddiw doedd 'na ddim cyfle i siarad hyd yn oed. Doedd y Cyngor ddim yn gweithredu ei bolisi ei hun!

Ond, a bod yn deg gyda'r Cyngor, yr eglwysi sydd yn rhwystro'r newid. Nid yw eglwysi yn anfon cynrychiolwyr ifanc i'r

[\(parhad ar y dudalen nesaf\)](#)

Dyddiadur Gwen Down o Aberystwyth

(parhad o dudalen 3)

Gymanfa. Pe bai eglwysi o ddifri ynghylch cael cynrychiolaeth deg o ferched, pobl ifanc a phobl yn byw ag anabledau, byddai'r cynrychiolwyr yn adlewyrchu hynny. Tybed nad oes yn rhaid i eglwysi Cymru a phob gwlad arall ddechrau ymddwyn fel eglwysi sydd yn credu mewn cydraddoldeb rhyw a rhai sydd am glywed lleisiau pobl ifanc? Ymhen wyth mlynedd, pan gynhelir y Gymanfa nesaf, efallai y bydd gan Gymru gynrychiolwyr ifanc yn ogystal â chynrychiolwyr arferol, ac y gall y Cyngor wedyn ddewis Pwyllgor Gwaith gwir gynrychioliadol.

7 Medi

Y ddau ddiwrnod diwetha' wedi bod yn brysur iawn ac mae'r stiwardiaid i gyd wedi blino yn lân. Mae lot o drafod go fywiog wedi bod wrth geisio cael consensws ar ddatganiad ar ryfel Wcráin. Mae'r gynhadledd yn gweithio ar consensws yn hytrach na phleidlais o blaid ac yn erbyn. Rhaid cael cydsyniad

pawb ac mae hynny yn gallu bod yn broses araf. Roedd yna deimladau cryf iawn yn cael eu mynegi am y datganiad ar y Dwyrain Canol. Roedd esgob o un o eglwysi'r Almaen yn daer yn erbyn defnyddio'r gair apartheid wrth ddisgrifio agweddau o fewn Israel tuag at Balestinaid. Roedd yn cyfeirio at sensitifwydd yn yr Almaen oherwydd yr atgof am yr Holocaust. Yn y diwedd roedd rhaid cael datganiad oedd yn dweud fod yna anghytuno ynghylch y term ac na ellid dod i gytundeb yn ei gylch.

8 Medi

Gwisgo du unwaith eto. Mae'r gynhadledd yn dod i ben – ni fyddaf yn colli'r teithiau



tram am 7 y bore! Ein dyletswydd olaf oedd stiwardio cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Gwaith newydd: 150 o aelodau ac yn eu plith yr Esgob Gregory Cameron, esgob Llanelwy. Fe siaradodd amryw o weithiau yn y cyfarfod ond nid oes hawl i rannu dim ddigwyddodd yn y pwyllgor.

Rhaid i mi deithio i Frankfurt heno i gychwyn fy nhaith am adref. Ond daeth pawb o'r stiwardiaid at ei gilydd mewn bwytyyn yddinas gyntaf, ac roedd llawer iawn o siarad, chwerthin a cholli dagrau wrth ffarwelio. Mae'r cyfan wedi bod yn brofiad gwych. Rydw i wedi cyfarfod ac wedi gweithio gyda phobl amrywiol iawn; mae gen i ffrindiau o bob rhan o'r byd ac rydw i'n deall ffydd fel rhywbeth llawer iawn mwy amlochrog. Rydw i'n deall yn iawn nad oes ffordd i ni gytuno ar bopeth drwy'r amser a gallaf ddathlu fod amrywiaeth yn rhan o'n ffydd ni. Rydw i'n deall yn well hefyd sut mae ffydd yn help i ni ddeall ein cyfrifoldeb am y byd ac am ein gilydd. Adref nawr gan edrych ymlaen at dipyn bach mwy o gwsg.

Dathlu 275 mlynedd yng Nghefnberach

Eleni mae capel Cefnberach, Gelli Aur, Henaduriaeth Myrddin, yn dathlu 275 mlynedd fel eglwys Crist.

Mae'n eglwys fywiog, a chriw o bobl o bob oedran yn rhoi o'u hamser a'u talentau i'w chynnal.

Prynhawn Sul, 7 Awst 2022, cafwyd oedfa arbennig, lle traddodwyd hanes yr achos gan sawl un o'r aelodau oedd â chysylltiadau teuluol hanesyddol â'r capel. Braff oedd cael clywed sôn am yr hen saint a'r oesoedd a fu.

Nos Sul, 11 Medi, cynhaliwyd noson o fawl yn y capel. Braff oedd cael cwmni pobl yr ardal a'r eglwys cyfagos, a da o beth oedd gweld llawr y capel yn llawn. Bu'r canu dan arweiniad Mrs Ann Davies, a'r Cyng. Hefin Jones oedd llywydd y noson. Merched Berach oedd yr artistiaid gyda band y Diarheibion yn cyfeilio.

Ian Sims



S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol Sul, 2 Hydref am 7.30yh

Bydd Lisa yng Nghaerdydd yn ymweld ag Oasis, canolfan lloches i ffoaduriaid. Cawn glywed gan y cerddor Carwyn Ellis, sy'n estyn llaw i'r rhai sy'n ffoi rhag gormes a thrais.

BBC radio
cymru

Caniadaeth y Cysegr

Sul, 2 Hydref, am 7:30yb a 4:30yp

Elin Manahan Thomas yn trafod cyfraniad cyfansoddwyr clasurol tuag at ein hemynyddiaeth

Sul, 2 Hydref, am 12:00yp

Oedfa dan arweiniad Olwen Williams, Tudweiliog

Yn y flwyddyn y bu farw ... Elizabeth

Fe fydd 2022 yn flwyddyn hynod mewn hanes. Dyma ddiwedd cyfnod Elizabeth II. Mae llawer wedi bod yn meddwl amdani, yn cofio'i hamser fel brenhines. Mae'r mwyafrif wedi mynegi parch ati fel person, fel credadun yn yr Arglwydd Iesu Grist ac fel un oedd yn gydwybodol yn cadw ei haddunedau fel brenhines. A beth fydd nesaf? Brenhiniaeth â golwg wahanol? Trafodaethau ynglŷn â dyfodol monarchiaeth gyfansoddiadol? Eithaf posib!

Ond beth yw ein gweddi a'n dyhead dyfnaf ni fel Cristnogion yn y cyfnod presennol hwn? Onid rhywbeth tebyg i'r hyn ddigwyddodd i Eiseia yn y flwyddyn y bu farw'r brenin Usseia?

Usseia

Roedd wedi teyrnasu am 52 mlynedd ac wedi gwneud yr hyn oedd uniawn yng ngolwg yr ARGLWYDD. Roedd wedi ceisio Duw, a chymryd ei gynghori a'i ddysgu gan ddyd o'r enw Sechareia, rhyw gynghorydd ac athro ysbrydol. Tra oedd yn ceisio'r Arglwydd, bu bendith arno. Enillodd frwydrau yn erbyn gelynion Israel a bu llwyddiant amaethyddol yn Jwda. Gwaetha'r modd, fe aeth yn falch wedyn, a mynd i'r deml i offrymu offrwm fel petai'n offeiriad, a daeth gwahanglwyf arno nes iddo farw.

Eseia

Yn yr un flwyddyn, cafodd Eseia weledigaeth o'r Arglwydd, y Brenin anfarwol, uchel a dyrchafedig. Gwelodd y deml fel tŷ dol, a'r Arglwydd fel cawr, ac ymyl ei wisg yn llenwi'r tŷ. Gwelodd fodau nefol yn ymostwng ac yn cuddio'u hwynebau a'u traed rhag ei ogoniant, ac yn ei addoli fel yr Un sanctaidd. Roedden nhw'n treblu'r gân. Gwelodd rywbeth o sancteiddrwydd Duw – ei burdeb, a'i fod ar wahân ac uwchben ei greadigaeth. Gwelodd rywbeth o ogoniant ac ysblander Duw.

Daeth yn ymwybodol ei fod yn aflan gerbron Duw sanctaidd a gogoneddus. Roedd ei wefusau, fel ei galon, yn aflan. Cafodd bersbectif cywir ar ei hunan. Nid dyn yw canolbwynt y bydsawd; nid dyn sy'n uchel a dyrchafedig. Mae dyn yn fach iawn ac yn syrthio'n fyr iawn o ogoniant Duw. Dim ond Un fu erioed yn ddi-fai a di-nam. Roedd yn ofni ei bod wedi darfod amdano yn ei aflendid.

Ymateb y nef

Yna daeth neges o'r nef, nid i fychanu cyffes Eseia o bechod, ond i gyhoeddi glanhad. Daeth marworyn tanllyd i gyffwrdd â'r aflan,



Llun gan Giovanni Battista Tiepolo <https://www.artbiblia.info/art/large/469.html>

nid er mwyn ei gondemnio, ond ei sancteiddio. Dyna ddarlun hyfyd o Dduw'r Mab yn dod i lawr i'r byd mewn cnawd. Daeth i gyffwrdd â'r aflan a'r brwnt, er mwyn symud ein drygioni a'n heuogrwydd. Bu fyw ar ein daear heb bechod, a bu farw dros bechod ei bobl, pob un sy'n dod ato mewn edifeirwch.

Ymateb Eseia

Pan ddaeth galwad i wasanaethu'r nef, roedd y profiad o dderbyniad, glanhad a maddeuant yn golygu bod Eseia yn barod i wasanaethu'r Arglwydd. Doedd dim angen rhoi pwysau arno na throi ei fraich i ymrwymo i wasanaeth Duw.

Onid dyma yw ein hiraeth am y flwyddyn a'r cyfnod presennol? O na fyddai pobl yn gweld gogoniant Duw yn wyneb Iesu Grist: yn gweld ei burdeb fel Oen a laddwyd dros bechadur, yn gweld ei ogoniant a'i awdurdod – nid i gondemnio ond i achub. O na fyddem yn gweld hyn ar raddfa helaeth eto yng Nghymru a thu hwnt! Ni fyddai diffyg ymrwymiad na diffyg ymgeiswyr i wasanaethu'r Arglwydd. Gadewch i ni weithio i ogoneddu'r Arglwydd a chymell eraill i ddod ato, a gweddio y bydd yn gweld yn dda i ddangos ei ogoniant i rai sydd ar hyn o bryd yn ddall iddo.

John Treharne

Ailagor y Ganolfan Gyfeillgar yn y Babel, Zion Newydd

Yn ystod y ddwy flynedd a hanner ddiwethaf bu'n dawel yn y festri yn y Babel, Zion Newydd, Pensarn, Caerfyrddin, ond yn sgil y tawelwch fe ddaeth cyfle i ymestyn y gegin a chodi toiledau fyddai'n cynnwys cyfleusterau i'r anabl. Diolch i adeiladwr proffesiynol a gwirfoddolwyr o fewn y gynulleidfa, roedd y festri'n barod ar gyfer Medi 2021 ond roedd hi'n dal yn dawel yn y festri.

Penderfynwyd agor ar ôl y Pasg ar gyfer paned yn unig ac yna, o dipyn i beth, daeth yr hyder yn ôl, fel ar y Sul gyda'r oedfaon a'r ysgol Sul, i agor y Ganolfan Gyfeillgar i'r gymuned – lle i gael cwmniaeth, rhannu straeon, estyn allan i'r gymdeithas, heb anghofio'r chwerthin iach.

Felly, ddydd Iau, 1 Medi, fe ddaeth llond festri ynghyd i'w hailagor yn swyddogol. Offrymwyd gweddi gan y Parch. Emyr Williams ac yna cafwyd gair pwrpasol gan Mrs Caron Thomas a Dr Vincent Jenkins, y ddau'n blant i wŷ a gafodd gymaint o gymorth gan y ganolfan yn y blynyddoedd wedi iddo golli ei wraig a chyn iddo yntau ymadael â'r hen fyd yma y llynedd.

Cafwyd gair hefyd gan y Parch. Mike Shephard oedd y tu ôl i'r weledigaeth yn 2013 ac yna gair o ddiolch gan Mrs Helen Gibbon. Mawr yw ein diolch i'r timau o wirfoddolwyr fydd yn y gegin



yn wythnosol a mawr hefyd yw'r gobaith y gallwn barhau, yng ngoleuni cariad yr Arglwydd Iesu, i fod o wasanaeth i'r gymuned a chynig cymorth a chysur lle bo angen.

Helen Gibbon

ADNABOD

Cymeriadau'r Hen Destament

ABRAHAM

Cyfes o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

Abraham – anffyddlondeb, ffyddlondeb a phobman rhwng y ddau!

1 Cyflwyniad i'r maes

Darlenn: Galatiaid 3:15–29

Mae'n anodd gorbwysleisio pwysigrwydd Abraham yn y stori Feiblaidd ac mewn diwinyddiaeth Gristnogol. Mae adnod gyntaf y Testament Newydd yn nodi Iesu fel 'mab Abraham' (Mathew 1:1). Ac eglura Pauli'w ddarlennwyr, y rhan fwyaf ohonynt heb fod yn Iddewon, 'Ac os ydych yn eiddo Crist, yna disgynyddion Abraham ydych, etifeddion yn ôl addewid' (Galatiaid 3:29).

Mae'r pedair efengyl, llyfr yr Actau, tri o lythyrau Paul – y llythyr at yr Hebreaid, 1 Pedr ac Iago – yn enwi Abraham 71 o weithiau. Mae'r patriarch yng nghanol dysgeidiaeth y Testament Newydd ynglŷn â ffyddlondeb Duw i'w addewidion cyfamodol, hunaniaeth pobl Dduw, cyfiawnhad trwy ffydd ar wahân i'r gyfraith, a'r uffudd-dod sy'n plesio Duw.

Gan fod Abraham, felly, nid yn unig yn ffigwr canolog ar ddechrau hanes ymwneud Duw â phobl, neu genedl arbennig, ond hefyd yn ganolog i'r ddealltwriaeth Gristnogol o berthyn i bobl Dduw, mae'n berson y dylem ddod i'w adnabod yn well. Yn ystod y flwyddyn nesaf, os Duw a'i myn, fy mwriad yw ceisio edrych ar gefndir yr hanes am Abraham, edrych ar yr hanesion eu hunain, yn arbennig yng nghyd-destun y bwriad y traddodwyd hwy yn gyntaf, ac yna, drwy'r hanesion, deall eu perthnasedd i fywyd y Cristion, ac i fywyd yr Eglwys, pobl Dduw.

Fel ychydig o gyflwyniad, rydym yn gyfarwydd iawn â'r amrywiaeth sy'n perthyn i genhedloedd gwahanol o amgylch y byd. Perthyn iddynt ddaearyddiaeth, grwpiau ethnig a thraddodiadau unigryw. Yr hyn sy'n gyffredin fel arfer yw'r storïau sydd gennym am ddechreuadau ein cenedl. Byddwn yn eu hadrodd nid yn unig er sicrhau parhad yr hanes a bod plant a phlant y plant yn cofio'u gwreiddiau, ond hefyd er mwyn sylweddoli bod yna ddelfrydau o'n gorffennol ddylai ein cynorthwyo i ddarganfod cyfeiriad ar gyfer y dyfodol.

Mae'r un peth yn wir am bobl Dduw yn yr Hen Destament. Maent yn trysori hanesion eu dechreuadau er sicrhau coffadwriaeth o fenter a ffydd yr hynafiaid gyda golwg ar geisio cerdded yr un llwybrau yn eu presennol a'u dyfodol.

Ond, ac mae hwn yn ond pwysig, yr un peth sy'n anghyffredin am yr hanesion yn y Beibl, boed hynny am hanes Abraham neu unrhyw un arall o brif gymeriadau hanes pobl Dduw, mae'r darlun a geir ohonynt yn un cignoeth a gonest. Wrth inni fynd drwy hanes Abraham, gobeithio y gwelwch arwyddocâd pennawd ein gwers heddiw.

Pan oeddwn yn yr ysgol yn gwneud 'Ysgrhythur', rwy'n cofio'r athro'n dysgu mai'r foment allweddol ym mywyd Abraham oedd yr adnodau sy'n dechrau â'r gorchymyn: 'Dywedodd yr ARGLWYDD wrth Abram, "Dos o'th wlad, ac oddi wrth dy dylwyth a'th deulu, i'r wlad a ddangosaf i ti"' (Genesis 12:1–3). Mae Genesis 11:31 yn dweud wrthym fod Abraham ar ei ffordd i Ganaan yn barod, a bod ei dad wedi aros yn Haran ar y ffordd. Tebyg fod fy athro heb sylwi bod yr ymadrodd yn 12:1 yn llythrennol yn nodi, 'Ac wedi dweud yr Arglwydd wrth Abram'. Ymhellach, er y gorchymyn i fynd a gadael ei deulu, erbyn adnod 5, mae'r llwyth i gyd yn gadael!

Yr wyf yn nodi hyn i gyd ar y dechrau gan fod unrhyw ymgais i esbonio rhai o'r hanesion dilynol yn nhermau rhywun oedd yn gawr o ran ffyddlondeb o'r galwad cyntaf yn mynd i fod bron yn amhosibl. Mae'r hanesion yn dweud rhywbeth gwahanol – fod Abraham, yn sicr am y 25 mlynedd cyntaf wedi gadael Haran, ymhell o fod yn ffyddlon. Ond, trwy ras, mae yna newid. Mae hynny'n wers ddigon buddiol i ni ar ddechrau'r daith yma. Anffyddlon, ffyddlon, neu bobman rhwng y ddau, gras Duw yw ein hunig obaith sicr yn wyneb ein crwydro personol. Nid hanes i ganmol Abraham sydd yma, ond hanes i ganmol Duw Abraham.

1. Pa bethau yn eich bywyd, bywyd eich eglwys neu fywyd ein cenedl sydd, yn eich tyb chi, yn bwysig eu trosglwyddo?
2. Meddyliwch am enghreifftiau o'r Beibl lle mae gonestrwydd y darlun o gymeriadau yn syndod, yn heriol ac/ neu yn gysur?
3. Sut mae gras yn delio â'n hanes?

University of
South Wales
Prifysgol
De Cymru

Cyd-gaplan llawn amser

Mae Caplaniaeth Prifysgol De Cymru am benodi Gweinidog ordeiniedig yn Gyd-gaplan llawn amser. Byddwn hefyd yn ystyried ymgeiswyr am y weinidogaeth a all ddangos profiad addas ac a fydd yn cael eu hordeinio i'r swydd gan eu henwad. Nid yw profiad o gaplaniaeth Addysg Uwch yn hanfodol.

Mae Prifysgol De Cymru yn gymuned amlddiwylliannol/aml-ffydd sydd wedi'i lleoli ar bum campws, ym Mhontypridd, Caerdydd, Casnewydd a Merthyr Tudful.

Mae tîm integredig y Gaplaniaeth yn darparu gweinidogaeth ragweithiol i bobl o bob ffydd, a dim ffydd, ar draws pob campws. Yn ogystal â rhannu gwaith bugeiliol y Gaplaniaeth, bydd y sawl a benodir yn trefnu digwyddiadau i fyfyrwyr, yn gallu defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn effeithiol wrth gysylltu â myfyrwyr a hyrwyddo gwaith y Gaplaniaeth, yn gorchwylio'r rhaglen wirfoddoli ac yn datblygu'r Tŷ Cwrdd ymhellach fel man croesawgar, bywiog, i staff a myfyrwyr.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn llawn dychymyg ac yn egniol ac yn cofleidio ethos agored a chynhwysol y Gaplaniaeth yn llawn, yn gyfforddus gyda gwahaniaeth, ac yn gallu gweithio'n hyblyg gyda gofynion amrywiol mewn amgylchedd prysur.

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: dydd Sul, 9 Hydref 2022

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Y Parchg Vaughan Rees, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Caplaniaeth, Prifysgol De Cymru, Pontypridd, CF37 1DL; vaughan.rees@southwales.ac.uk

Ffydd a diwylliant

Y ddalen wag

Onid ydy dalen wag yn beth dychrynlyd?

Onid ydy gwacter fel *vacuum* yn mynnu cynnwys? Distawrwydd yn mynnu sŵn? Dalen a chynfas yn mynnu geiriau a lliwiau? Tawelwch yn tyngu cân neu sgrech neu sgwrs?

Mae yna gyfansoddwyr wedi arbrofi gyda thawelwch. Dyna i chi '4:33' (1952) gan John Cage. Darn mewn tri symudiad, ar gyfer unrhyw gyfuniad o offerynnau, yn cynnwys cyfanswm o 4 munud 33 eiliad o dawelwch. Mae nifer o artistiaid, gan gynnwys Andy Warhol, Yves Klein a Yoko Ono, wedi creu gweithiau anweledig, ac fe wnaeth Oriol yr Hayward yn Llundain arddangos hanner cant ohonyh nhw ddegawd yn ôl a chodi £8 ar bobl i fynd i mewn i'w gweld nhw.

Ond dros yr wythnosau diwethaf yma, mae dalen wag fel petai wedi troi'n fath o gwllwm athronyddol torfol.

Sôn ydw i, wrth gwrs, am y protestwyr mud oedd yn dal darnau glân o bapur yn y digwyddiadau torfol yn dilyn marwolaeth brenhines Lloegr.

Be oedd i gyfri eu bod nhw'n mynnu'r fath sylw? Roedd pobl yn ymateb yn ffyrnig i'r gwacter, plismyn yn bygwth arestio pobl ar gownt yr hyn *allai* lenwi'r gwynder. Pobl oedd wedi dal darnau o wacter yn gyhoeddus yn cael eu dilyn adref gan swyddogion diogelwch.

Mae'n rhaid cydnabod bod y cyd-destun yn allweddol. Fel mae cerddorfa sydd ddim yn perfformio neu gynfas gwag mewn oriel, yn hytrach nag mewn siop, yn gwneud datganiad, roedd darn o bapur gwag mewn digwyddiad torfol lle'r oedd disgwyl dim llai nag unffurfiaeth yn gwahodd ymateb.

Ond eto, roedd natur yr ymateb yn ddiddorol. Roedd y ddalen wen fel drych i farn neu ragfarn y dorf. Roedden nhw'n ymateb i beth roedden nhw'n ei *ddychmygu* fyddai ar y ddalen. Roedden nhw'n dychmygu rhywbeth gwrth-frenhinol, amharchus, fyddai'n tarfu ar yr heddwach. Ond tra oedd y 'protestiadau' yn taro ar yr



Ashley West Edwards ar unsplash <https://unsplash.com/photos/4X0uAq0Sj-Y>

unffurfiaeth, yr ymateb, yn amlach na pheidio, oedd yn tarfu ar yr heddwach.

Neu tybed a oes modd gweld y ddalen wen fel drych i gydwybod? A oedd y dorf yn gwybod be oedd y cyhuddiadau ynglŷn â chyfoeth a gwariant mewn dyddiau o gyni, am olyniaeth freiniol mewn gwladwriaeth ddemocratiaidd sydd wedi gyrru pobl ifanc i farw dros ddemocratiaeth mewn gwledydd eraill? Dyna, mae'n debyg, oedd y cyd-destun yn ei wahodd.

Ond tybed be fyddai'r ymateb petaen ni'n sefyll ar y stryd, y tu allan i'n capeli efallai, yn dal dalen wag? Sut fyddai'r dorf fyddai'n pasio'n ymateb? Be fyddai eu barn, neu eu rhagfarn nhw? Be fyddai eu cydwybod nhw'n ei ddweud? A fydden nhw'n sgrechian neu'n chwerthin? Neu efallai na fydden nhw'n gwybod be ar wyneb y ddaear oedden ni'n sefyll drosto?

Tybed sut fyddai hi petawn i'n gofyn i'r golygydd osod gofod gwag â'r geiriau 'Colofn Rocet Arwel Jones' uwch ei ben yn lle'r golofn yma yn y rhifyn nesaf? A fyddai angen i mi sgwennu unrhyw beth? Neu a fydddech chi'n gwybod yn syth – a dyma'r math o beth mae hwn yn ei sgwennu. Dyna'i ragfarnau o. Dyna fy marn innau.


Tro nesa, efallai?

Rocet Arwel Jones

Inc yr Awen a'r Cread: Cerddi Byd Natur (Golygydd: Rhys Dafis; Cyhoeddiadau Barddas, 2022)

Ers 2017 mae ngwerthfawrogiad i o fydd natur wedi grymuso ers i Macsen ddod i'n tŷ ni. Nid nad oeddwn i'n gwerthfawrogi'r byd hwnnw cyn hynny, cofiwch, ond y mae Macsen y ci wedi'n gorfodi ni i fynd allan o'r tŷ sawl tro mewn diwrnod i fynd â fo am dro. Yn amlach na pheidio, Macsen fydd yn mynd â ni! A da hynny, oherwydd mae o wedi gwneud inni werthfawrogi'r cread, ac yn dal i wneud hynny. A dydw i ddim yn mynd i wamalu na dilyn unrhyw ddadl, dim ond dweud – cread Duw: 'Eiddo'r Arglwydd y ddaear a'i llawnder, y byd a'r rhai sy'n byw ynddo' (Salm 24: 1).

A gwnaeth y cyhoeddiad hwn gymwynas fawr â ni yn crynhoi cerddi, penillion ac englynion, ia, sydd wedi'u dweud gennym lawer tro, ac wedi aros yn y co'. Ond drwy eu cael nhw mewn cyfrol hylaw, hardd, mae rhywun yn medru troi



atyn nhw'n rhwyddach rywsut. Mi gewch chi amrywiaeth o farddoniaeth gan wahanol feirdd yma – beirdd sy'n mynd yn ôl i R. Williams Parry, T. Llew Jones ac Iorwerth C. Peate, ymlaen i'n cyfnod

a'n cenedlaeth ni. Mae'r amrywiaeth testunau'n eang, ac i mi mae englyn Philippa Gibson i'r 'Archfarchnad' yn crynhoi rhan fawr o neges y gweithiau:

O'r ddaear mynnwn gario – yn helaeth
O'i thir gan lwytho
Bag 'rôl bag hyd nes y bo
Ddigon i'r silffoedd wagio.

Mae amrywiaeth yn y testunau hefyd, a cheir adrannau sy'n sôn am adar, anifeiliaid, ynghyd â phobl a natur, ac rydyn ninnau, dwi'n siŵr, yn cael ein hatgoffa o gyfieithiad Elfed o waith Joachim Neander:

Nef a daear, tir a môr
Sydd yn datgan mawl ein lôr,
Fynni dithau, f'enaid, fod
Yn y canol heb roi clod?

Porwch yn y gyfrol hardd yma, sy'n cynnwys llun trawiadol i gyd-fynd â phob un o'r cerddi. Ei phris yw £10.95.

Iwan Llewelyn

Dyma gyfarfod hyfryd iawn

Cryfha ein ffydd

Nid oes dwywaith amdani. Bydd yr amgylchiadau economaidd, cymdeithasol a gwleidyddol sy'n cael eu darogan ar gyfer y misoedd nesaf yn debyg o fod yn heriau difrifol a bygythiol iawn i les cymunedau ac i iechyd unigolion. Ac ni fydd ein cynulleidfaoedd na'n haelodau heb eu heffeithio gan y gwae sy'n cael ei fygwth. Sut felly ydym ni i ymateb i'r heriau hyn?

Mae'r Ysgrifurau ar eu hyd yn pwysleisio nad ydym i ymddiried yn addewidion gwag pobl. Ar yr un pryd mae arnom gyfrifoldeb i warchod yr anghenus, i weithredu cyfiawnder.

Realiti ein profiad, fodd bynnag, yw ein bod ar brydiau'n colli golwg ar yr Arglwydd Iesu, yn cael ein llethu gan bryder ac yn ansicr beth y dylem ei wneud nesaf!

Bydolwg

Ac yntau mewn cyfng-gyngor, gweddiodd y Salmudd am gael gweld y byd o olwg yr Arglwydd.

Darlenn: Salm 37:1-9

Gweddi

O Dduw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, addolwn di. Cynhyrfa ninnau i'th garu, gan gredu yn dy gyfiawnder a rhodio'n union ger dy fron. Gweddiwn am ffydd i ddyfalbarhau, am weledigaeth newydd sy'n rhoi persbectif ehangach o'th sancteiddrwydd. Tyrd atom, O Ysbryd Glân, a chrea ynom oibaith o'r newydd.

Darlenn: Luc 17:5-10 - 'Cryfha ein ffydd'

Nid yw'n anodd dychmygu'r disgyblion, oedd wedi treulio amser gyda'r Iesu, yn gwangalonni. Daethai rhyw ddwyter a difrifoldeb newydd i eiriau Iesu. Onid oedd wedi 'troi ei wyneb tuag at Jerwsalem'. Mynnodd ei fod 'wedi dod i fwrw tân ar y ddaear, ac O na fyddai eisoes wedi ei gynnau! Y mae bedydd y mae'n rhaid fy medyddio ag ef, a chymaint yw fy nghyfyngder hyd nes y cyflawnir ef!' (Luc 12:49-50)

Bellach nid fel 'disgyblion' mae Luc yn cyfeirio atynt ond fel 'apostolion' (17:5). Dyma'r rhai oedd bellach yn llysgenhadon, yn gynrychiolwyr dros Iesu ei hun. Ac er na wyddent hynny ar y pryd, nhw fyddai'r

tystion i'r weithred ryfeddaf yn hanes y byd. Caent weld Mab y Dyn yn rhoi ei hun yn bridwerth dros lawer. Caent ei weld yn cael ei osod mewn beddrod tywyll cyn iddo atgyfodi. Trwy ei farwolaeth fuddugoliaethus byddai'n condemnio angau a byddent ymhen ychydig fisoedd yn cael eu hanfon yn nerth yr Ysbryd Glân i fod yn dystion i'r holl fyd.

Buont yn ei ymyl am fisoedd, yn ei wyllo ac yn gwrandao ar ei eiriau. Gwelsent effaith ei eiriau ar ei wrandawyr. Llawenhau a wnaethant hwythau wrth feddwl am ei neges am y Tad a groesawodd yr afradlon, a gwingo a wnaethant pan fynai fod pob un, ac unrhyw un, oedd am ei ganlyn yn codi ei groes, gan fyw yn hunanaberthol bob dydd er mwyn ei ganlyn ef.

Gwelsent ef mewn oriau o weddi ddwys yn galw ar ei Dad nefol. Canlyniad hynny oedd iddynt ofyn iddo ddatgelu iddynt beth oedd cyfrinach ei weddi a sut y medrent hwythau weddio fel yr oedd ef yn gweddio. Yn awr, wedi iddynt glywed ei rybudd y byddai'n well pe na byddai person wedi ei eni na'i fod yn gyfrifol am gwmp 'un o'r rhai bychain', gwelsant fod cyfrifoldeb mawr arnynt. Clywsant am yr angen i faddau heb gadw cyfrif. Dyma ddisgwyliadau uchel ac aruchel. Pwy allai byth eu cyflawni? Naturiol iddynt felly oedd gofyn i'r Arglwydd, 'Cryfha ein ffydd'.

Mae ateb Iesu yn rhyfeddol. Nid 'rhywbeth' i'w berchnogi yw ffydd, neu adnodd i'w gostrelu. Ni ellir prynu ffydd, ac ni ellir ei throsglwyddo fel talp o rywbeth o un cyfrif banc i gyfrif banc rhywun arall. Nid perchnogi ffydd 'fawr' yw'r hyn sy'n gwneud gwahaniaeth i ni. *Hedyn bychan*, wedi'r cyfan, yw hedyn mwstard! Gwrthrych mawr i'n ffydd yw cyfrinach dilyn Iesu a gwasanaethu Duw.

Nid ffordd o sicrhau llwyddiant, na ffordd o gyflawni ein dymuniadau, mo ffydd. Ystyrid y goeden forwydden yn un oedd bron yn amhosibl ei symud. Yn wir, credai'r Athrawon (Rabbi) y gallai ei gwreiddiau barhau'n fyw yn y ddaear am 600 mlynedd! Nid maint ein ffydd sy'n codi morwydden ond y Duw tragwyddol fawr hwnnw sy'n wrthrych ein ffydd ac yn sbarduno ein gwasanaeth.

Da y dywedodd yr Athro Tom Wright: 'Nid ffydd fawr sydd ei hangen arnoch; ond ffydd yn y Duw mawr. Y mae ffydd fel ffenestr y medraf weld rhywbeth drwyddi. Nid maint y ffenestr sy'n bwysig, p'un a ydyw'n chwe modfedd neu'n chwe throedfedd o uchder. Beth sy'n bwysig yw'r Duw sy'n wrthrych eich ffydd, sef y Duw yr ydym yn edrych arno.'

A'r hyn a wêl llygad ffydd yw Arglwydd oedd, ac sydd, ar waith yn Iesu Grist, drwy'r Ysbryd Glân, yn sefydlu ei deyrnas drwy gymodi byd gelyniaethus ag ef ei hun.

Gwasanaeth

O feddiannu gweledigaeth fawr o Dduw a'i allu, ei fwriadau grasol a'i weithgarwch achubol drwy Iesu Grist, sylweddolwn mai ein braint pennaf ni ydyw ei wasanaethu a gweithio dros ei deyrnas, ac ynddi. Yn wir, mynegir ffydd drwy ein gwasanaeth i'r hwn a wasanaethwn. Ei deyrnas ef y gweddiwn amdani. Ei allu ef yw'r grym a gyflawnia ei fwriadau.

Yr arferiad yn oes Iesu Grist oedd i weision lafurio hyd tua 3 o'r gloch y pawns. Byddent yn dychwelyd wedyn er mwyn paratoi swper. Wedi llafurio drwy'r dydd, ni fyddai'r gweision yn meddwl eu bod wedi ennill yr hawl i gael eistedd a chael paned wrth i'r meist'r eu gwasanaethu. Nid oedd cyflawni gweithgarwch y dydd yn gosod eu meist'r mewn dyled iddynt. Gweision oeddynt.

Yn yr un modd, nid yw'r disgybl yn fwy na'i feistr, na'r rhai sy'n gwasanaethu byth yn medru gosod yr Arglwydd Iesu Grist yn y fath le fel ei fod yn ddyledus iddynt. Yn un a wasanaethwn a rydd urddas a gwerth i'n gwasanaeth. Ac ar ddiwedd oes o wasanaeth bydd y Cristion cryfaf, mwyaf ffyddlon, yn gorfod dweud, 'Gweision ydym, heb unrhyw deilyngdod; cyflawni ein dyletswydd a wnaethom.'

Gweddi

Arglwydd, diolchwn heddiw nad maint ein 'ffydd' yw mesur ein nerth. Ti yw gwrthrych mawr ein ffydd, ti yw'n harglwydd, ti ein meist'r. Cyffeswn mai gweision anffuddiol ydym. Dyhëwn am weledigaeth fawr ohonot fydd yn gosod ein ffydd ar waith, ein tystiolaeth ar gerdded, yn llenwi'n gwasanaeth â llawenydd. Amen.

Emyn 276: 'Y brenin tlawd'

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com

www.cennad.cymru | [f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru) | [t @CennadCymru](https://twitter.com/CennadCymru)